Gwasanaethau Corfforaethol ac Arolygiaethau
Corporate Services and Inspectorates

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ein Cyf/Our Ref: 250227/ PAT

27 Chwefror 2025

Annwyl Mr Isherwood,

**Penodiadau Cyhoeddus**

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 20 Rhagfyr 2024 lle'r ymrwymais i roi'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar y gwaith sy'n cael ei wneud i ganfod yr asesiad o aelodau ein bwrdd o ran y Gymraeg, rwyf yn ysgrifennu gyda chanlyniadau arolwg byr diweddar.

Cyhoeddwyd yr arolwg hwn ym mis Ionawr 2025 i gasglu data oddi wrth Gyrff y Sector Cyhoeddus a restrir yn y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor fel un sy'n dilyn y Cod Llywodraethiant Penodiadau Cyhoeddus. Cawsom 188 o ymatebion, sef cyfradd ymateb fras o 47% o holl Aelodau'r Byrddau.

Mae'r tablau isod yn darparu dadansoddiad o sgiliau Cymraeg ar draws pedwar categori - gwrando, darllen, siarad ac ysgrifennu. Cyflwynir yr wybodaeth fel ‘cyfanswm yr ymatebion’ gan y gallai dadansoddiadau pellach ddatgelu hunaniaeth unigolion.

Mae'r data hwn er gwybodaeth aelodau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ac rydym yn gofyn yn garedig nad yw'n cael ei ryddhau i'r cyhoedd.

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 03000 257829
Tim.Moss@gov.wales

| | | |
|---|---|---|
| [redacted] | [redacted] | [redacted] |
| [redacted] | | [redacted] |
| [redacted] | [redacted] | [redacted] |
| [redacted] | [redacted] | [redacted] |
| [redacted] | [redacted] | [redacted] |
| [redacted] | [redacted] | [redacted] |

[redacted]

[redacted]

[redacted]

| | | |
|---|---|---|
| [redacted] | [redacted] | [redacted] |
| [redacted] | [redacted] | [redacted] |
| [redacted] | [redacted] | [redacted] |
| [redacted] | [redacted] | [redacted] |
| [redacted] | [redacted] | [redacted] |
| [redacted] | [redacted] | [redacted] |

[redacted]

[redacted]

[redacted]

[redacted]

| [redacted] | [redacted] | [redacted] |
|---|---|---|
| [redacted] | [redacted] | [redacted] |
| [redacted] | [redacted] | [redacted] |
| [redacted] | [redacted] | [redacted] |
| [redacted] | [redacted] | [redacted] |
| [redacted] | [redacted] | [redacted] |

[redacted]

[redacted]

[redacted]

| [redacted] | [redacted] | [redacted] |
|---|---|---|
| [redacted] | [redacted] | [redacted] |
| [redacted] | [redacted] | [redacted] |
| [redacted] | [redacted] | [redacted] |
| [redacted] | [redacted] | [redacted] |
| [redacted] | [redacted] | [redacted] |

[redacted]

[redacted]

[redacted]

Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol bod y data yn y ‘Papur Tystiolaeth ar Benodiadau Cyhoeddus’, a gyflwynwyd cyn y sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru ar 17 Hydref 2024, wedi nodi bod 27.3% o'r rhai a benodwyd ar gyfer y cyfnod rhwng 17 Gorffennaf 2023 a 16 Gorffennaf 2024 yn siaradwyr Cymraeg uwch. I'r gwrthwyneb, roedd canlyniadau'r arolwg hwn (fel y nodir yn y tablau uchod) yn casglu data o'r byrddau presennol, y penodwyd llawer ohonynt cyn 17 Gorffennaf 2023.

Mae amcangyfrifon o allu yn y Gymraeg ar lefel poblogaeth yn amrywio ar draws arolygon. Yn ôl Cyfrifiad 2021 roedd 17.8% o’r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg, ac roedd Arolwg Blynyddol o’r Boblogaeth 2023 yn nodi bod y ffigur hwnnw yn 29.2%. O’r herwydd, mae’n ymddangos bod gallu Cymraeg ymhlith aelodau'r bwrdd yn cyfateb yn fras i ffigurau’r boblogaeth, neu’n uwch na hynny.

Mae canlyniadau'r arolwg hwn yn cyd-fynd â Cham Gweithredu 1.1 o'r Strategaeth Adlewyrchu Cymru wrth Redeg Cymru ac maent yn caniatáu inni sefydlu llinell sylfaen i lywio camau gweithredu yn y dyfodol. Byddwn yn ymgorffori hyfedredd yn y Gymraeg mewn ymdrechion casglu data ar gyfer aelodau'r bwrdd yn y dyfodol.

Rwyf yn gobeithio y bydd hyn o gymorth i'r Pwyllgor wrth ystyried ei Ymchwiliad i Benodiadau Cyhoeddus.

Yn gywir



Tim Moss
Cyfarwyddwr Cyffredinol a Phrif Swyddog Gweithredol
Llywodraeth Cymru
Director General and Chief Operating Officer
Llywodraeth Cymru